**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i heffaith ar ofalwyr**

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am eu hadroddiad. Mae argymhellion yr adroddiad yn tynnu sylw at bryderon sydd gan ofalwyr ac eraill, yn ogystal â'r heriau sydd o'n blaen. Rwyf wedi nodi mewn datganiadau blaenorol fod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfraniad a wna gofalwyr yn eu rôl ofalu, ynghyd â'n hymrwymiad fel llywodraeth i'w cefnogi.

O safbwynt argymhellion y pwyllgor, pleser yw cadarnhau ein bod, ar gyfer mwyafrif yr argymhellion, eisoes yn cynllunio neu'n cymryd camau i wella'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr a gwella profiadau gofalwyr. Isod rwy'n nodi'n fanwl fy ymatebion i argymhellion unigol y Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at drafod yr ymateb hwn gyda chi maes o lawr.

**Argymhelliad 1** Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, ddangos arweinyddiaeth genedlaethol gryfach wrth ddarparu hawliau a gwasanaethau i ofalwyr o dan y Ddeddf. Fel man cychwyn, rhaid iddi baratoi, o fewn chwe mis, gynllun gweithredu clir ar gyfer mynd i'r afael â'r methiannau gweithredu a amlygwyd yn y dystiolaeth a gawsom. Wrth wneud hyn, rhaid iddi ymgynghori â rhanddeiliaid a gofalwyr allweddol. Rhaid iddi hefyd nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni'r camau a nodwyd yn ei chynllun

**Ymateb – Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol gref o ran datblygu cymorth gwell i ofalwyr. Ers i Ddeddf 2014 gael ei chyflwyno a'i rhoi ar waith o fis Ebrill 2016, rydym wedi bod yn datblygu hawliau gofalwyr ac yn canolbwyntio ar y modd y cawn yr effaith fwyaf ar ofalwyr ar draws Cymru.

Yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â gofalwyr i ddatblygu'r tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017, fe wnaethom gytuno hefyd fel rhan o'r gwaith hwnnw i sefydlu fforwm strategol newydd o dan arweiniad y Gweinidog. Sefydlwyd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr yn 2018, ac mae'n dwyn ynghyd randdeiliaid allweddol – awdurdodau lleol, byrddau iechyd, sefydliadau gofalwyr ac eraill – fel y gellir ystyried anghenion gofalwyr, yn awr ac yn y dyfodol.

Yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr a gynhaliwyd ganol mis Mai 2019, nodais fy syniadau o ran sut y gallwn fwrw ymlaen â'n blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr yn 2020 a thu hwnt trwy gyfrwng cynllun cenedlaethol cynhwysfawr. Yna, ar 21 Tachwedd 2019, sef y 'Diwrnod Hawliau Gofalwyr', cyhoeddais ein bwriad i ddatblygu cynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr. Bydd yn helpu i fwrw ymlaen â'r gwaith a'r agenda strategol ar y cyd â'n tair blaenoriaeth genedlaethol bresennol ar gyfer gofalwyr. Bydd y cynllun newydd yn pennu'r sbardunau a'r camau allweddol y byddwn eu hangen, a sut y gall pob un ohonom weithio gyda'n gilydd fel llywodraeth, awdurdodau statudol, byrddau iechyd, comisiynwyr, Gofal Cymdeithasol Cymru, sefydliadau gofalwyr ac eraill, i arwain at effaith wirioneddol ar fywydau gofalwyr.

Mae cynnwys a strwythur y cynllun newydd eisoes wedi bod yn destun trafodaethau gydag aelodau'r Grŵp Cynghori Gweinidogol, gan gychwyn yn eu cyfarfodydd ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019. Roedd hyn yn cynnwys ystyried adborth yn ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr, sut y gallwn wella gwybodaeth gofalwyr am eu hawliau o dan Ddeddf 2014, a ble y gallant gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

Bydd y syniadau hyn yn cael eu datblygu yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr ar 29 Ionawr 2020. Rwy'n awyddus inni fod mewn sefyllfa i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach eleni, a chael cynllun newydd ar waith cyn diwedd 2020.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 2** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynllunio nawr ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn nifer y gofalwyr di-dâl. Rhaid iddi gymryd golwg hirdymor ar beth fydd anghenion gofalwyr yn y dyfodol a sut, ynghyd ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector, y bydd yn diwallu'r anghenion hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni hyn ac adrodd yn ôl inni ar y cynnydd mewn chwe mis.

**Ymateb – Derbyn**

Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio a bydd mwy ohonom yn gofalu am ein hanwyliaid, gyda llawer yn byw â chyflyrau iechyd hirdymor, mwy cymhleth. Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 fod oddeutu 370,000 o ofalwyr i'w cael – yn ôl pob tebyg, mae'r ffigur hwn yn fwy erbyn hyn. Ymhen ugain mlynedd, amcangyfrifir y bydd un o bob tri ohonom â chyfrifoldebau gofalu. Mae demograffeg yn dangos y bydd un o bob pedwar ohonom dros yr ugain mlynedd nesaf (yn 2040) dros 65 oed, a rhagwelir y bydd nifer y bobl dros 75 oed yn cynyddu o 9 y cant o'r boblogaeth yn 2018 i oddeutu 14 y cant yn 2040.

Ar lefel strategol, golyga Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fod yn rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf ystyried y tymor hir, a gweithio'n well ac yn ddoethach gydag unigolion a chymunedau, yn ogystal â gyda'i gilydd, er mwyn atal problemau strategol rhag datblygu a dwysáu, yn ogystal â rhoi dull mwy cydgysylltiedig ar waith. Rydym hefyd wedi blaenoriaethu gofal cymdeithasol yn ein strategaeth genedlaethol – Ffyniant i Bawb – a Cymru Iachach, sy'n pwysleisio'r angen am system iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Bydd y strategaethau hyn yn awr yn cael eu hategu gan ein cynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr.

Elfen sy'n allweddol i gynllunio yw Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, ac mae'r llywodraeth wrthi'n llunio canllawiau er mwyn llywio'r rownd nesaf o asesiadau. Yn Rhan 2 Deddf 2014 rydym wedi nodi'n glir fod gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyfrifoldebau i wneud y canlynol:

- deall nodweddion ac anghenion eu poblogaeth leol, yn cynnwys gofalwyr, trwy gynnal asesiad poblogaeth o bobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth;

- darparu, neu wneud trefniadau i ddarparu, lefel ac amrywiaeth o wasanaethau, yn cynnwys gwasanaethau ataliol i ofalwyr, sy'n hygyrch o fewn y gymuned;
- sicrhau bod modd i ofalwyr gael gafael yn rhwydd ar wybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn ymwneud â'r math o gymorth sydd ar gael yn eu cymuned; a'r un mor bwysig, eu helpu i ddeall sut y mae'r system gofal a chymorth yn gweithio yn eu hardal.

Goblygiadau ariannol – Dim. Ni fydd unrhyw gostau arwahanol ychwanegol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 3** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Grŵp Cynghori Gweinidogol yn cael cefnogaeth ac adnoddau i fod yn fforwm effeithiol. Rhaid iddo fod â statws digonol o fewn Llywodraeth Cymru i godi proffil gofalwyr ac anghenion gofalu ar draws meysydd polisi'r llywodraeth, gan gynnwys llywodraeth leol, iechyd, tai a thrafnidiaeth. O'r herwydd, dylai aelod o Lywodraeth Cymru ei gadeirio. Dylai fod yn dryloyw, a dylai gyhoeddi agendâu a chofnodion ei gyfarfodydd. Rhaid i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn chwe mis ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**Ymateb – Derbyn**

Cafodd y grŵp cynghori gweinidogol ar ofalwyr ei greu yng nghanol 2018 mewn ymateb i alwadau gan amrywiaeth eang o randdeiliaid am gael fforwm strategol, lefel uchel y gallai eu haelodau ymgysylltu ag ef, gan herio a dylanwadu ar bolisïau'r presennol a'r dyfodol. Arwydd o statws y grŵp ac ymrwymiad y Gweinidogion yw'r ffaith fod y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynychu'r cyfarfodydd yn aml, er mwyn clywed ystyriaethau ac adborth yr aelodau. Mae'r Grŵp wedi cyfarfod bump o weithiau rhwng haf 2018 a Rhagfyr 2019, a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 29 Ionawr 2020.

Ar ôl ystyried cynnydd gwaith y Grŵp Cynghori Gweinidogol, rwyf wedi penodi Mr Arwel Ellis Owen, Cyn-gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru, fel Cadeirydd y grŵp hwn. Yn rhinwedd ei arbenigedd a'i brofiad bydd yn cynnig arweiniad clir, diduedd a strategol i'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar adeg allweddol yn ei raglen waith – sef datblygu'r cynllun cenedlaethol newydd.

Byddwn yn cyhoeddi agendâu a chofnodion y cyfarfodydd er mwyn i bawb allu darllen am ein trafodaethau ac am ddatblygiad y cynllun cenedlaethol newydd.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 4** Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, weithredu ei hymrwymiad i ymgymryd ag ymgyrch gyhoeddusrwydd fawr i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a hawliau gofalwyr oddi tani. Dylai hyn godi proffil gofalu, gwella'r broses o nodi gofalwyr, hyrwyddo manteision asesiadau o anghenion o dan y Ddeddf, ac annog pobl i gymryd rhan. Dylai hefyd gyfeirio pobl at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy priodol ynghylch gofalu. Rhaid i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn chwe mis.

**Ymateb – Derbyn**

Pleser oedd cael rhoi gwybod i aelodau'r pwyllgor yn ein cyfarfod ganol mis Chwefror 2019 am ein bwriad i lansio ymgyrch newydd yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr. Cafodd yr ymgyrch ei lansio ar y Diwrnod Hawliau Gofalwyr, sef 21 Tachwedd – y cam cyntaf mewn ymgyrch benodol a gynhelir yn 2019 a 2020.Ymhellach, fe wnaethom lansio deunyddiau i roi gwybod i bobl hŷn am eu hawliau, a defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i ddenu sylw at y lansiad.

Bydd cam cyntaf yr ymgyrch yn canolbwyntio ar ofalwyr o bob oed, gyda negeseuon allweddol yn cael eu cyfleu ar ffurf poster a thaflen, lle rhoddir gwybod i bobl y gallant gysylltu â'u hawdurdod lleol i gael gwybod mwy, ac i gael asesiad o anghenion gofalwyr pan fo hynny'n briodol. Bydd yr wybodaeth a fydd yn deillio o'r cam cyntaf hwn yn cael ei defnyddio i lywio'r ymgyrch yn ystod 2020-21, yn cynnwys gwybodaeth yn targedu gofalwyr ifanc.

Byddwn yn casglu data a gwybodaeth am y defnydd a wneir o'n gwe-dudalennau sy'n lletya'r poster a'r daflen, yn ogystal â swyddogion sy'n cael adroddiadau gwerthuso rheolaidd, a byddwn yn gofyn am adborth gan rwydweithiau gofalwyr, fel aelodau Cynghrair Cynhalwyr Cymru.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 5** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol hynny ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sydd fwyaf tebygol o ddod i gysylltiad â gofalwyr, gan gynnwys meddygon teulu, yn gallu nodi gofalwyr a'u cyfeirio at wasanaethau priodol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod hyfforddiant penodol yn cael ei ddarparu ar gyfer hyn.

**Ymateb – Derbyn**

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb dros sicrhau bod eu gweithlu wedi'i hyfforddi'n briodol i gyflwyno gwasanaethau fel gwybodaeth, cyngor, cynhorthwy a chymorth i ofalwyr. Ond fel rhan o'i gylch gwaith mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol yn y maes gofal cymdeithasol, yn cynnwys sut i gynorthwyo gofalwyr ac, yn bwysicach na dim, sut i gynnal y sgwrs hollbwysig honno gyda gofalwr, wrth gynnal asesiad o anghenion gofalwyr.

Mae uwch-swyddog o Gofal Cymdeithasol Cymru yn aelod o'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr, a bydd datblygu hyfforddiant ac adnoddau gwybodaeth ar gyfer y gweithlu hollbwysig hwn yn cael lle amlwg yn y cynllun cenedlaethol newydd.

Ers 2016-17 rydym wedi bod yn darparu cyllid uniongyrchol i fyrddau iechyd lleol ar gyfer cynorthwyo gofalwyr, ac yn 2018-19 a 2019-20 targedwyd £1m at gynorthwyo gofalwyr pan fônt mewn cysylltiad â gwasanaethau meddygon teulu, a phan gaiff y person y maent yn gofalu amdano ei ryddhau o'r ysbyty. Ar gyfer 2020-21, byddaf yn gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol ddefnyddio'u dyraniad mewn ffordd fwy hyblyg, o gofio ein gwaith ar ddatblygu'r cynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydarwain y gwaith o ddatblygu strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, mewn partneriaeth â GIG Cymru, Llywodraeth Leol a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol, yn ogystal â rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol a darparwyr addysg. Mae'r strategaeth gweithlu'n hollbwysig o ran cyflawni'r uchelgais o gael 'Cymru Iachach', ac ar 12 Tachwedd 2019 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol becyn buddsoddi £127m i gynorthwyo rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru – cynnydd o 13% o'i gymharu â 2019/20.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 6** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ffurfiol o asesu anghenion ar gyfer gofalwyr yn cael ei hegluro a'i safoni ar draws awdurdodau lleol. Rhaid iddi allu dangos sut y mae wedi cyflawni hyn a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn chwe mis.

**Ymateb – Derbyn**

Mae Deddf 2014 yn rhoi dyletswyddau clir ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 i gychwyn gyda'r rhagdyb mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu ynghylch ei lesiant ei hun.

Caiff y broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ei nodi'n glir yng Nghod Ymarfer penodedig Rhan 3 (asesu anghenion unigolion), a rhaid i bob awdurdod lleol roi'r broses hon ar waith wrth gynnal asesiad gydag unigolyn neu ofalwr. Mae'r cod hwn yn nodi proses ar gyfer asesu anghenion unigolyn am ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, ynghyd â'r broses asesu a fydd yn berthnasol i bawb – plant, oedolion a gofalwyr, yn ogystal â phroses adolygu ac ailasesu, a fydd yn berthnasol i ailasesiadau.

Rhaid i bob ymarferydd weithio gyda phobl i ganfod beth sy'n bwysig iddynt hwy, a chanfod cryfderau a galluoedd gofalwyr unigol. Mae hyn yn hanfodol i'r system. Dyma ddull o asesu a chynllunio gofal sy'n cydnabod y gellir diwallu anghenion nid yn unig trwy ddarparu gwasanaethau, ond hefyd trwy gynnig cymorth a chynhorthwy gweithredol er mwyn galluogi pobl i ddiwallu eu hanghenion eu hunain e.e. helpu gofalwyr i gael gafael ar wasanaethau lleol eu hunain.

Mae cynlluniau gofal a chymorth yn esblygu o asesiadau effeithiol ynghylch yr hyn sy'n bwysig i'r person, a'r canlyniadau y mae'r person yn dymuno'u gwireddu. Dyma fodel asesu a chynllunio gofal lle mae angen i'r broses asesu gychwyn gyda'r person ei hun, a deall ei gryfderau a'i alluoedd a'r hyn sy'n bwysig i'r person, a sut y mae ei deulu, ei gyfeillion a'r gymuned leol yn rhan o'i fywyd, er mwyn ei helpu i wireddu ei ganlyniadau personol ei hun.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 7** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol hynny ym maes gofal cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddarparu asesiadau anghenion yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwell profiad defnyddiwr i ofalwyr. Dylai'r hyfforddiant

gynnwys pwyslais ar iaith briodol i'w defnyddio mewn perthynas ag asesiadau, dileu'r rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol a sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth y mae ganddynt yr hawl iddi o dan y Ddeddf. Rhaid i Lywodraeth Cymru werthuso effaith yr hyfforddiant hwn.

**Ymateb – Derbyn**

Yn 2018, aeth Gofal Cymdeithasol Cymru ati i gomisiynu'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus i ymgysylltu â rhanddeiliaid gofalwyr a chyrff statudol, yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Gofalwyr Cymru a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, i ddatblygu adnoddau newydd yn ymwneud ag asesu anghenion gofalwyr.

Cyhoeddwyd yr adnoddau hyn yng ngwanwyn 2019, a'u bwriad penodol yw cynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr a llunio cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer gofalwyr pan gaiff anghenion cymwys eu nodi. Caiff y rhain eu datblygu trwy ystyried y gofalwr fel partner cyfartal, a'r nod yw galluogi'r gofalwr i fyw'r bywyd y dymuna ei gael. Cyn hyn, lansiwyd cwrs e-ddysgu ganddynt yn hydref 2018 er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol ar draws y sector iechyd, gofal cymdeithasol a chyhoeddus i ddeall anghenion gofalwyr o bob oed a'r materion sy'n effeithio arnynt. Mae hwn ar gael ar blatfform e-ddysgu GIG Cymru, a'i fwriad yw ategu adnoddau hyfforddi presennol, a gweithio ochr yn ochr â'r adnoddau asesu gofalwyr.

Cafodd sgiliau mewn perthynas â gweithio gyda gofalwyr eu cynnwys fel blaenoriaeth newydd yng ngrant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2019-20. Gofynnir i ranbarthau gyflwyno data'n ymwneud â'u gweithgareddau hyfforddi ac mae'n rhan o broses adrodd y grant yn ystod 2019-20.

Mae'r "sgwrs ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig" yn hyblyg ac mae'n canolbwyntio ar y person, felly gellir addasu'r iaith er mwyn hwyluso'r sgwrs, yn cynnwys yn ystod asesiad ffurfiol o anghenion gofalwyr. Ni fyddem yn disgwyl i weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n cynnal asesiad o anghenion gofalwyr ar gyfer gofalwr ifanc ddefnyddio'r un iaith â gydag oedolyn. Mae'n hollbwysig i weithwyr awdurdodau lleol ac eraill sy'n ymgysylltu â gofalwyr – yn cynnwys asesu anghenion gofalwyr – sicrhau bod y sgwrs yn cael ei harwain gan yr unigolyn.

Goblygiadau ariannol. Dim. Bydd unrhyw gostau'n cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 8** Rhaid i Lywodraeth Cymru fynnu gwerthusiad o effeithiolrwydd y broses asesu anghenion. Mater i Lywodraeth Cymru yw dull y gwerthusiad hwn, ond dylid ei gynnal yn flynyddol a dylid cyhoeddi'r canlyniadau.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Mae Deddf 2014 yn rhoi dull cymesur ar waith, a dim ond pan fo angen cynnal asesiadau y dylai awdurdodau lleol (neu'r gwasanaethau dirprwyedig a gyflogir ganddynt i'r perwyl hwnnw) wneud hynny, a dylent ddarparu cymorth i unigolion a gofalwyr trwy ddulliau eraill pan fo hynny'n briodol. Fodd bynnag, mae'r ffocws allweddol ar ganlyniadau'r sgyrsiau hynny, a'r effaith ar fywyd y gofalwr a'i allu i barhau â'i rôl ofalu yn ogystal â chael bywyd ochr yn ochr â'i rôl ofalu.

Bydd gwaith gwerthuso ffurfiol mewn perthynas â Deddf 2014 yn cael ei gynnal dros gyfnod o dair blynedd. Gan ddechrau yn 2019-20, bydd yn archwilio i ba raddau y mae gan bobl “lais a rheolaeth”, gan ddadansoddi felly yr egwyddorion allweddol sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf 2014. Bydd ein Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd yn ein helpu i gael gafael ar dystiolaeth a gweld lle gall bylchau fod yn ein gwybodaeth neu ein data.

Ar hyn o bryd mae data meintiol a gesglir gan awdurdodau lleol yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol, ac maent yn cynnwys data'n ymwneud ag asesiadau o'r angen am ofal a chymorth. O fis Ebrill 2020 ymlaen, bydd y data a gesglir yn llywio elfen ‘data meintiol’ y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd. Bydd hyn yn darparu amrywiaeth o ddata a thystiolaeth i fesur a monitro perfformiad ar lefel leol a chenedlaethol, fel y gellir ysgogi gwelliannau ar draws y sector gofal iechyd a llywio polisïau cenedlaethol.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd costau gwaith dadansoddi o'r fath ac unrhyw waith monitro cysylltiedig yn cael eu talu trwy gyllidebau rhaglenni presennol, pe bai hynny'n briodol.

**Argymhelliad 9** Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r amser hwyaf y mae'n credu y dylai gofalwr ei aros i dderbyn asesiad o anghenion.

**Argymhelliad 10** Rhaid i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd yn ôl ar restrau aros am asesiadau o anghenion. Gall y Grŵp Cynghori Gweinidogol ddarparu fforwm priodol ar gyfer adolygu'r adroddiadau hyn.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn cydnabod ac yn derbyn bod nifer o ofalwyr yn dweud wrthym eu bod yn aros am asesiad statudol o anghenion gofalwyr. Mae angen casglu data mwy priodol ac ystyrlon. Byddaf yn defnyddio'r data yma a gwaith mwy uniongyrchol gyda'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr i bennu sut y gellir sicrhau ymatebion mwy amserol, yn ogystal ag amrediad o atebion a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i gynnal asesiadau statudol amserol, effeithiol a all ymateb i'r cymorth y mae gofalwyr ei angen pan fyddant ei angen.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 11** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyfraddau gwrthod asesiadau o anghenion yn cael eu hadolygu. Gall y Grŵp Cynghori Gweinidogol ddarparu fforwm priodol ar gyfer y gwaith hwn

**Ymateb – Derbyn**

Mae angen i bob un ohonom ddeall pam y mae gofalwyr yn dewis gwrthod eu hawl i gael asesu eu hanghenion am gymorth. Eisoes, mae'r trefniadau gwerthuso ffurfiol yr ydym wedi'u rhoi ar waith yn dechrau cynnig tystiolaeth ar gyfer hyn. Ar hyn o bryd, mae nifer yr asesiadau a gaiff eu gwrthod gan ofalwyr sy'n oedolion yn cael ei gasglu trwy gyfrwng y casgliad data ar gyfer Oedolion sy'n cael gofal a chymorth. Mae ffigurau ar gyfer 2016-17 ymlaen wedi'u cyhoeddi'n flynyddol, ac ers 2016-17 mae'r data'n ymwneud â nifer y gofalwyr sy'n gwrthod asesiadau wedi aros yn eithaf

sefydlog. Bydd y data yma'n cael eu cynnwys yn y gofynion data newydd ar gyfer Fframwaith Perfformiad a Gwella Gofal Cymdeithasol, o fis Ebrill 2020 ymlaen.

Rydym yn cydnabod y gall fod yna fwy o ofalwyr y byddai'n briodol iddynt gael asesiad o anghenion ffurfiol gan eu hawdurdod lleol. Fodd bynnag, wrth geisio deall y data yma ac yn ychwanegol at gafeatau ar ansawdd data, o safbwynt gofalwyr nad ydynt angen cymorth (ar yr adeg honno), neu ofalwyr y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu ar y pryd trwy gyfrwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, neu ofalwyr sydd â chynllun cymorth ar waith eisoes a lle nad yw eu hanghenion wedi newid, mae'n bwysig nodi na ddisgwylir iddynt fod angen asesiad gofalwyr mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Gall fod yn dasg anodd gofyn i unigolion pam y maent wedi gwrthod asesiad, oherwydd efallai na fydd llawer ohonynt yn dymuno rhoi'r wybodaeth hon, ac yn aml dim ond canran fechan iawn o unigolion sy'n dychwelyd unrhyw arolygon meintiol a ddosberthir gan sefydliadau yn gofyn am adborth. Yng ngoleuni hyn, byddaf yn gofyn i'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr ystyried a fyddai'n briodol defnyddio dulliau ymchwil ar wahân i'r dulliau a defnyddir eisoes – er enghraifft 'Mesur y Mynydd' – er mwyn samplu a chasglu data meintiol o'r fath. Ymhellach, bydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol yn ystyried unrhyw risgiau'n ymwneud â'r samplu a'r ymestyn, a sut y byddai hyn yn effeithio ar y modd y bydd awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr.

Goblygiadau ariannol. Dim. Bydd unrhyw gostau'n cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 12** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith cynllunio at argyfwng yn rhan hanfodol o'r holl asesiadau o anghenion i sicrhau bod trefniadau penodol ar waith ar gyfer cyfnod pan nad yw'r gofalwr yn gallu parhau i ddarparu gofal.

### Ymateb – Derbyn

Mae Rhan 3 y Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod pob asesiad o anghenion gofalwyr yn cynnwys sgwrs fanwl ynglŷn â sut i wireddu canlyniadau'r gofalwr a pha gymorth y gall y gofalwr fod ei angen mewn gwahanol amgylchiadau. Mae amgylchiadau o'r fath yn cynnwys argyfyngau.

Ceir enghreifftiau mewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol o wahanol ffyrdd o helpu gofalwyr mewn amgylchiadau o'r fath, er enghraifft mae nifer o awdurdodau'n cynnig cardiau adnabod argyfwng i ofalwyr. Byddem hefyd yn annog awdurdodau lleol i rannu arferion gorau. Er enghraifft, mae awdurdod lleol Ceredigion yn cynnig Cronfa Argyfwng i Ofalwyr, lle caiff gofalwyr di-dâl gymorth mewn unrhyw sefyllfa a gaiff ei hystyried yn argyfwng gan y gofalwr. Yn 2018/19 defnyddiwyd y gronfa i archwilio ffyrdd mwy arloesol o gynorthwyo gofalwyr a'r person y maent yn gofalu amdano, hyd nes y llwyddir i wneud trefniadau tymor hwy gyda phob parti neu hyd nes y llwyddir i ddatrys yr argyfwng yn y byrdymor.

Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal ymgynghoriad anffurfiol, sy'n cynnwys awdurdodau lleol, yn ymwneud â'r fframwaith polisi drafft newydd ar gyfer gofal brys ac argyfwng. Mae'r fframwaith polisi drafft yn disgrifio 'dull chwe nod' newydd sydd â'r bwriad o helpu arweinwyr gwasanaethau lleol i wneud pethau'n

wahanol, yn well ac yn gyflymach er budd pobl y mae arnynt eisiau neu angen mynediad at ofal brys ac argyfwng. Bydd hyn yn cynnwys:

1. Cydgysylltu, cynllunio a chynorthwyo pobl mewn perygl mawr neu bobl agored i niwed – a'u gofalwyr – sef pobl sy'n fwy tebygol o fod angen gofal brys neu argyfwng;

2. Cynghori a chyfeirio pobl, teuluoedd a/neu eu gofalwyr, sef rhai y mae arnynt eisiau neu angen triniaeth neu gymorth brys.

Goblygiadau ariannol. Dim. Bydd unrhyw gostau'n cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 13** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau darpariaeth deg o wasanaethau i ofalwyr ledled Cymru, gan gynnwys gwasanaethau seibiant. Fel man cychwyn, rhaid iddi sicrhau bod ystod sylfaenol o wasanaethau cymorth i ofalwyr, yn seiliedig ar feini prawf cymhwysedd, yn cael eu darparu gan bob awdurdod lleol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno mecanwaith i fonitro darpariaeth y gefnogaeth hon. Dylai adrodd yn ôl ar gynnydd o fewn chwe mis.

**Ymateb – Derbyn**

Trwy gyfrwng yr asesiadau o anghenion y boblogaeth, mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ar fin cyflwyno tystiolaeth ar y cyd ynghylch anghenion gofal a/neu gymorth yn eu hardal a defnyddio'r dystiolaeth honno i ddarparu neu drefnu gwasanaethau a chymorth i gwrdd â'r anghenion hynny. Ar lefel unigolion, mae'r meini prawf cenedlaethol a bennir yn Neddf 2014 yn darparu ar gyfer dull cyson o gwrdd ag anghenion gofal a chymorth pob unigolyn yng Nghymru, yn cynnwys gofalwyr. Rhywbeth sy'n ganolog i'r dull hwn yw ysbryd cyd-gynhyrchu, gan weithio gyda'r unigolyn, y gofalwr a'r teulu i ddeall eu hanghenion, eu capasiti, a'r adnoddau a'r canlyniadau y maent yn dymuno neu angen eu cael. Nid trwy ddarparu gwasanaethau'n unig y gellir diwallu anghenion; mae modd eu diwallu hefyd trwy ddarparu cymorth a chynhorthwy gweithredol er mwyn galluogi pobl i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Fe fydd gan bob awdurdod lleol lefel ac amrywiaeth gwahanol o ddarpariaethau ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, gan ei gwneud yn amhosibl sicrhau darparwr neu ddarpariaeth lefel gwasanaeth unfath. Fodd bynnag, gyda chynrychiolwyr gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol rydym yn trafod sut y gellir sicrhau mwy o gysondeb a sut y gellir adrodd am y cysondeb hwn, yn cynnwys adeiladu ar ddulliau presennol fel adroddiadau a gyflwynir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Byddai hyn yn cynnwys yr holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â chynorthwyo gofalwyr, nid awdurdodau lleol yn unig.

Goblygiadau ariannol. Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 14** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth am wariant awdurdodau lleol ar wasanaethau seibiant. Dylai hyn gwmpasu pob blwyddyn ariannol ers i fuddsoddiad y llywodraeth o £3 miliwn o gyllid cylchol ddechrau yn 2017-18.

**Ymateb – Gwrthod**

Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol yn flaenoriaeth inni, a byddant yn parhau i fod felly. Yn wir, mae ffigurau Trysorlys Ei Mawrhydi yn dangos ein bod yn buddsoddi 11 y cant, neu bron i £300, yn fwy fesul person mewn iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd nag a wneir yn Lloegr.

Mae'r gyllideb gyffredinol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru rywfaint yn fwy na £9 biliwn y flwyddyn, ac yn sgil prif ffrydio hawliau gofalwyr o dan Ddeddf 2014 mae gan ofalwyr fynediad at (neu fe allant ddisgwyl cael mynediad at) wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ac mae'r un peth yn wir am unigolion ag anghenion gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys mynediad at ddarpariaeth seibiant pan fo hynny'n briodol.

Fel y nodir yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, ac mewn trafodaeth fanwl yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr ym mis Hydref 2018, mae yna gryn drafod ynghylch beth yw seibiant bellach, wrth iddo symud oddi wrth y model gofal dros nos "traddodiadol" (mewn cartref gofal, dyweder) ar gyfer yr unigolyn sydd ag anghenion gofal, neu wasanaeth gwarchod dros nos sy'n galluogi'r gofalwr i gael noson ddi-dor o gwsg. Gwyddom hefyd y gall unigolion sy'n cael taliadau uniongyrchol ddefnyddio'r dull hwn i gael gafael ar, a phrynu, mathau o seibiant, a all fod ar nifer o ffurfiau gwahanol.

Yn niffyg diffiniad cytunedig a ffynhonnell ddata gyson ar hyn o bryd, ni allwn dderbyn yr argymhelliad hwn i gyhoeddi set ddata genedlaethol. Ein ffocws ni yn y maes fydd gweithio gyda phartneriaid i ddeall gwerth modelau seibiant gwahanol o safbwynt canlyniadau i ofalwyr.

Goblygiadau ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 15** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod effaith ei buddsoddiad cylchol o £3 miliwn ar gyfer gwasanaethau seibiant yn cael ei gwerthuso. Rhaid i'r gwaith hwn nodi ansawdd a maint y gwasanaethau a ddarperir, ynghyd â chasglu gwybodaeth am fylchau yn y ddarpariaeth.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Fel rhan o hawl gofalwyr i gael asesu eu hanghenion am gymorth a'u hawl i'r anghenion cymwys hynny gael eu diwallu, gall hyn gynnwys angen cymwys a aseswyd ar gyfer gofal seibiant. Fodd bynnag, mae'n bwysig i hyn gael ei gyflawni trwy gyfwng dull sy'n canolbwyntio ar y person. Nid ydym yn cefnogi darpariaeth gyffredinol yn ymwneud ag un math arbennig o gymorth – na fyddai wedi'i seilio ar yr asesiad o'r angen na'i deilwra ar gyfer yr unigolyn.

Ym mis Hydref 2018 cynhaliodd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr drafodaeth fanwl ynglŷn â gwahanol fathau o ddarpariaeth seibiant ac adborth gan ofalwyr, yn cynnwys trafodaeth yn ymwneud ag adroddiad 'Ailystyried Seibiant' Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae'n amlwg ar sail amrywiaeth o ffynonellau fod nifer o ofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc, yn dymuno cael seibiant ar ffurf gwyliau teuluol. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, bûm yn cyfarfod â Phrif Weithredwr Shared Care Scotland i glywed mwy am eu Cronfa Gwyliau Byr a'u Cynlluniau Seibiantgarwch.

Byddwn hefyd yn cydariannu ac yn cymryd rhan mewn cynhadledd ddwyochrog rhwng Cymru a’r Alban ym mis Mai eleni, er mwyn galluogi academyddion, swyddogion a chyrff allweddol eraill i gyfnewid syniadau a phethau a ddysgwyd.

Caiff nifer yr oedolion a chanddynt gynllun gofal a chymorth, ac sy’n cael gwasanaethau’n cynnwys gofal seibiant a chyfleoedd hamdden a dysgu gydol oes yn ystod y flwyddyn, ei gasglu trwy gyfrwng y casgliad data ar gyfer Oedolion sy’n cael gofal a chymorth (caiff gofalwyr eu cynnwys, ond ni ellir eu hadnabod yn benodol yn y data a gesglir ar hyn o bryd). Mae’r ffigurau ar gyfer 2016-17 ymlaen wedi’u cyhoeddi’n flynyddol. Byddwn yn parhau i gasglu data a gwybodaeth berthnasol er mwyn inni gael gwybod am angen parhaus gofalwyr am seibiant a’r effaith o safbwynt yr unigolyn.

Goblygiadau ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 16** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod safon ofynnol o gyngor a chefnogaeth yn cael ei darparu ledled Cymru i’r gofalwyr hynny sy’n dymuno defnyddio Taliadau Uniongyrchol. Dylai hyn fod yn rhan o ystod sylfaenol o wasanaethau cymorth sy’n cael eu cynnig i ofalwyr.

**Ymateb – Derbyn**

Rhaid i’r holl sgyrsiau â gofalwyr, fel rhan o asesiad o anghenion gofalwyr, gynnwys y cynnig iddynt gael taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion cymwys. Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i gwrdd ag unrhyw angen cymwys a nodir, a gall unigolion ddewis diwallu eu hanghenion cymwys yn rhannol trwy daliad uniongyrchol, tra trefnir y gweddill gan eu hawdurdod lleol.

Mae ein cod ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth a chymorth priodol a hygyrch fod ar gael i bawb. Rhaid i’r cymorth hwnnw fod ar gael pan fydd pobl yn gwneud y penderfyniad cychwynnol ynghylch a all taliadau uniongyrchol fod o fudd iddynt, yn ogystal â thrwy gydol y cyfnod y byddant yn parhau i gael taliad uniongyrchol. Mae awdurdodau lleol yn comisiynu cymorth allanol neu’n darparu’r gwasanaeth hwn yn fewnol.

Gan weithio gyda’r rhai sy’n derbyn taliadau uniongyrchol, partneriaid yn y trydydd sector, awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym wedi datblygu presenoldeb ar-lein penodol ac wedi cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau i hyrwyddo a chefnogi defnydd o daliadau uniongyrchol. Mae’n adnodd cynhwysfawr a gaiff ei anelu at ymarferwyr a rhai sy’n derbyn taliadau uniongyrchol. Mae’n ymdrin â’r wybodaeth sylfaenol angenrheidiol ac yn cyfeirio pobl at gyngor manylach pan fo angen. https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/taliadau-uniongyrchol-canllaw

Goblygiadau ariannol. Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 17** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob gofalwr ifanc a phob gofalwr sy’n oedolyn ifanc yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth a’r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Wrth wneud hynny, rhaid iddi fynd i’r afael â’r pryderon penodol a fynegwyd gan ofalwyr ifanc mewn tystiolaeth i’r pwyllgor hwn. Rhaid iddi

sicrhau bod y gefnogaeth a'r gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn briodol i'w hoedran ac yn hyblyg i ddiwallu eu hanghenion penodol. Rhaid bod cysylltiad cryf hefyd rhwng ysgolion a gwasanaethau gofalwyr. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni hyn ac adrodd yn ôl inni ar y cynnydd o fewn chwe mis.

**Ymateb – Derbyn**

O dan Ddeddf 2014 nid oes gwahaniaeth rhwng hawliau gofalwyr sy'n oedolion a hawliau gofalwyr sy'n blant, ac fel rhan o ddyletswyddau pob awdurdod lleol yn Neddf 2014 mae'n hollbwysig sicrhau bod gofalwyr o bob oed yn cael eu cefnogi yn eu rôl ofalu, a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu bywydau eu hunain y tu allan i'w rôl ofalu. Os mai plentyn yw'r gofalwr, rhaid i'r asesiad ystyried ei anghenion datblygiadol a'r graddau y mae'n briodol i'r plentyn ddarparu'r gofal.

Mae asesiadau Anghenion y Boblogaeth yn darparu'r data y dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol a phartneriaid eu defnyddio i gynllunio gwasanaethau i ofalwyr, yn ogystal â cheisio'u cyfraniad. Dylai hyn gynnwys gofalwyr ifanc. Rhaid i'r arfer o gydnabod anghenion gofalwyr ifanc a phennu sut i'w cynorthwyo gael ei hymgorffori ar draws gwasanaethau a rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill ddarparu cymorth.

Gwyddom fod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a gynigir gan awdurdodau lleol i ofalwyr ifanc yn cael eu comisiynu o blith y trydydd sector a'u cyflwyno gan sefydliadau fel Barnardo's, Gweithredu dros Blant ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru. Maent yn cynnig arbenigedd a gwybodaeth ynglŷn ag anghenion pobl ifanc yn gyffredinol, ond yn hollbwysig ynglŷn â'r effaith y gall y rôl ofalu ei chael ar blant unigol. Nid gwasanaethau gofalwyr ifanc yw'r unig wasanaethau y mae angen eu cynllunio a'u hariannu'n briodol, a dyna pam yr aethom ati yn 2018-19 i ariannu Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddatblygu canllaw newydd ar Arferion Da i Gomisiynwyr. Lansiwyd y canllaw yn hydref 2019, a'i bwrpas yw cynorthwyo amrywiaeth eang o sefydliadau comisiynu, yn cynnwys awdurdodau lleol, i ddeall anghenion gofalwyr yn well.

Bydd materion a phrofiadau arbennig gofalwyr ifanc, a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, yn rhan o waith ac ystyriaethau'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr a'n Grŵp Ymgysylltu ac Atebolrwydd newydd wrth inni ddatblygu ein cynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr. Bydd y grwpiau hyn yn mynd ati i ystyried y dystiolaeth a gyflwynir i'r pwyllgor hwn, yn cynnwys yr argymhellion hyn.

Rydym yn llwyr gydnabod yr angen i gael cysylltiad cryf rhwng ysgolion a gwasanaethau i ofalwyr ifanc yn eu hardal, er mwyn i ofalwyr ifanc gael cefnogaeth lawn. Fel rhan o hyn, rydym yn ymwybodol fod rhai ysgolion wedi pennu arweinydd ar gyfer gofalwyr ifanc i oruchwylio'r cymorth a gaiff gofalwyr ifanc a'u cyfeirio at wasanaethau gofalwyr ifanc, ond rydym yn cydnabod y byddai modd rhoi hyn ar waith yn fwy cyson. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu ymhellach mewn ysgolion a'i gefnogi gan arweinwyr tegwch a llesiant mewn consortia addysg Rhanbarthol.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 18** Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r Cod Ymarfer presennol ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch yr hyn a ystyrir yn lefel "briodol" o ofal i ofalwr ifanc er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru o leiaf yn gyfartal â'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban.

**Ymateb – Derbyn**

Ni fydd gofalwyr ifanc yn wynebu unrhyw wahaniaeth neu anfantais yn Neddf 2014. Mae ein Codau Ymarfer yn glir ynghylch y broses asesu ac ynghylch diwallu anghenion cymwys, a cheir gwybodaeth glir yn ymwneud yn arbennig â'r broses a'r ymarfer, a hefyd yr ystyriaethau y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal asesiad o anghenion person ifanc a all fod ag anghenion gofal a chymorth, neu ofalwr ifanc a all fod â'i anghenion gofal a chymorth ei hun.

Bydd y broses asesu'n cychwyn gyda gofalwyr unigol, ni waeth be fo'u hoed, er mwyn deall eu cryfderau a'u galluoedd, beth sy'n bwysig iddynt, a sut y mae eu teuluoedd, eu cyfeillion a'r gymuned leol yn rhan o'u bywydau, er mwyn eu helpu i gyrraedd eu nodau personol a sicrhau eu llesiant. Ni fydd asesiad o anghenion gofalwyr ifanc yn beirniadu'r ffordd y maent yn gofalu am y person y rhoddant ofal iddo (oni bai bod eu diogelwch hwy, neu ddiogelwch y person y rhoddant ofal iddo, mewn perygl), ac ni ddylai'r asesiad ragdybio y bydd gofalwyr yn dymuno parhau yn eu rôl ofalu.

Diben asesiad o anghenion gofalwyr yw gweithio gydag unigolion, gofalwyr, teuluoedd ac unigolion perthnasol eraill er mwyn deall eu hanghenion, eu capasiti, a'r adnoddau a'r canlyniadau y dymunant eu cael, gan fynd ati wedyn i bennu'r ffordd orau o'u cynorthwyo i gyflawni hyn oll. Nid pwyso a mesur sut ofal a rydd gofalwyr ifanc, neu ofalwyr sy'n oedolion, i unigolion ag anghenion gofal yw'r nod, ond ystyried eu hanghenion mewn modd cyfannol.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 19** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiweddaru a chryfhau'r canllawiau presennol i ysgolion ynghylch nodi a chefnogi gofalwyr ifanc, er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth ym mhob ysgol o'r galwadau ar ofalwyr ifanc. Dylai annog a chreu cyfleoedd i rannu arferion gorau o wasanaethau cymorth i ofalwyr ifanc mewn ysgolion.

**Ymateb – Derbyn**

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cynorthwyo ysgolion i ganfod pwy sy'n ofalwyr ifanc a darparu cymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion o ran cyrhaeddiad addysgol, iechyd emosiynol a llesiant dysgwyr. Mae gan ddatblygiad ein cwricwlwm newydd i Gymru – lle rhoddir llawer mwy o ffocws ar lesiant ac ar greu dysgwyr galluog ac uchelgeisiol – y potensial i ymdrin â rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr ifanc.

Er mwyn helpu gofalwyr ifanc fe wnaethom gyflwyno pecyn cymorth ymarferol i helpu ysgolion i'w cynorthwyo. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi llunio dau ganllaw – "Cefnogi Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion: Canllawiau a Phecyn Cymorth", a "Cefnogi Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion: Canllawiau gam–wrth-gam ar gyfer

arweinwyr, athrawon a staff sydd ddim yn dysgu". Ysgrifennwyd y rhain ar y cyd ag athrawon a staff ysgol er mwyn hwyluso'r dasg o ganfod gofalwyr ifanc a'u cynorthwyo mewn ysgolion. Maent hefyd wedi datblygu pecyn cymorth ar gyfer "Cefnogi Myfyrwyr â Chyfrifoldebau Gofalu sydd mewn addysg bellach".

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cynorthwyo ysgolion i ganfod pwy sy'n ofalwyr ifanc a darparu cymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion o ran cyrhaeddiad addysgol, iechyd emosiynol a llesiant dysgwyr. Yn 2019-20 rydym yn rhoi cyllid i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ar gyfer cyfres o ganllawiau, adnoddau a hyfforddiant i gynorthwyo gofalwyr ifanc a'u hathrawon. Bydd yr adnoddau hyn ar gael i ysgolion eu defnyddio yn ystod haf 2020.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 20** Credwn y dylai'r cynllun cardiau adnabod gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc fod yn gynllun cenedlaethol, wedi'i ddarparu gan bob awdurdod lleol gyda chefnogaeth briodol gan Lywodraeth Cymru ac yn hygyrch i bob gofalwr ifanc a gofalwr sy'n oedolyn ifanc. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni fel mater o flaenoriaeth. Dylai adrodd yn ôl ar gynnydd o fewn chwe mis.

**Ymateb – Derbyn**

Rydym eisiau cael cynllun cenedlaethol er budd gofalwr ifanc hyd at 18 oed, ni waeth ble y maent yn byw.

Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol trwy ddefnyddio dull gam wrth gam o gyflwyno cynllun cardiau adnabod dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Bydd y cam cyntaf, a roddir ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol hon, yn cynnwys hyd at saith o awdurdodau lleol a fydd yn ymddwyn fel "Gweithredwyr Cynnar" i dreialu a gwerthuso gwahanol elfennau posibl o'r cynllun cenedlaethol. Ochr yn ochr â'r awdurdodau lleol 'gweithredu cynnar' hyn fe fydd yna ddull clwstwr lle gall awdurdodau lleol sy'n debyg o ran ardal, trefoliad a demograffeg grwpio gyda'i gilydd. Bydd yr union ddyddiad y rhoddir y cynllun cenedlaethol llawn ar waith yn dibynnu ar ganlyniad y cam treialu hwn gyda'r awdurdodau gweithredu cynnar, ond ein nod yw cael cynllun cenedlaethol llawn ar waith ar gyfer 2022.

Drwy gydol y cam datblygu a threialu hwn rydym yn parhau i ariannu Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, sydd wedi gweithio gyda chyrff addysgol, fferylliaeth a meddygon teulu cenedlaethol a rhanbarthol, i wella dealltwriaeth gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus proffesiynol o anghenion gofalwyr. Bydd hyn yn parhau wrth i'r cynllun gael ei gyflwyno, er mwyn i weithwyr proffesiynol a ddaw i gysylltiad â'r cardiau wybod beth y mae'r cardiau'n ei olygu a sut i ymateb yn briodol i ofalwyr ifanc.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 21** Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i ofalwyr yn cael eu safoni ar draws bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol. Rhaid i hyn gynnwys darpariaeth ddwyieithog o'r gwasanaethau hyn. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynnull cynrychiolwyr o lywodraeth leol,

byrddau iechyd a'r trydydd sector gyda'r nod o ddatblygu dull a fydd yn sicrhau'r gwelliannau hyn i'r defnyddiwr gwasanaeth. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl inni ar y cynnydd o fewn chwe mis.

**Ymateb – Derbyn**

Mae hi bob amser yn bosibl cyflwyno gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus, a chytunwn fod hyn yn berthnasol i'r sgwrs rhwng gofalwr, ac awdurdod lleol neu ddarparwr iechyd, wrth geisio gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Mae cynrychiolwyr o blith cyrff statudol, byrddau iechyd a sefydliadau gofalwyr i'w cael o fewn y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr, a byddwn yn ymgynghori'n ehangach fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynllun cenedlaethol. Fel rhan o'u trafodaethau maent wedi bod yn ystyried sut i helpu unigolion i uniaethu fel gofalwyr – rhywbeth sy'n hollbwysig cyn sicrhau eu bod yn gwybod ble a sut i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd glir yn Neddf 2014 o dan egwyddorion allweddol Deddf 2014 a'r Cod Ymarfer statudol (Rhan 2 – Swyddogaethau Cyffredinol). Rhaid i wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy awdurdodau lleol hyrwyddo gwybodaeth yn ymwneud â sut y mae'r system gofal a chymorth yn gweithredu yn ardal yr awdurdod lleol; y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael; sut i gael gafael ar y gofal a'r cymorth sydd ar gael; a sut i leisio pryderon ynghylch llesiant person yr ymddengys fod ganddo anghenion gofal a chymorth.

Bwriedir i ddarpariaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, a chyflwyno amrywiaeth ehangach o wasanaethau cymunedol trwy gyfrwng partneriaethau a gweithio amlasiantaethol. Mae cyflwyno darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy wedi bod yn newid sylweddol i awdurdodau lleol, ac mae'r dull yn dal i gael ei ymwreiddio. O'r herwydd, efallai y bydd dulliau o ymdrin â darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ac yn ddiweddar mae'r ddarpariaeth wedi bod yn destun craffu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd eu hadroddiad "Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion" yn ddogfen allweddol o ran helpu i ysgogi gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

Cafodd safonau'r Gymraeg ar gyfer awdurdodau lleol, sydd â dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, eu llunio yn 2016. Disgwyliwn i'r holl gyrff statudol gwrdd â'r gofynion a osodwyd ar eu cyfer o dan y Rheoliadau.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 22** Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i hyrwyddo argaeledd gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i ofalwyr yn well, gan gynnwys manylion clir am sut i gael gafael arnynt. Dylid gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch gyhoeddusrwydd y cyfeirir ati yn Argymhelliad 4.

**Ymateb – Derbyn**

Caiff awdurdodau eu cynrychioli trwy gyfrwng y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ein Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr, ac felly byddant yn rhan o drafodaethau'n ymwneud â chynnwys ein cynllun cenedlaethol

newydd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y ffordd orau o dargedu gwybodaeth am fynediad gofalwyr at eu hawliau o dan Ddeddf 2014.

Ni chaiff yr holl ddarpariaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy eu darparu gan awdurdodau lleol, ac mae gwefan DEWIS Cymru yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig ar gyfer gweithgareddau ataliol a gweithgareddau llesiant o'r fath. Mae mwy o sefydliadau'n cofrestru eu gweithgareddau drwy'r amser, gan wneud DEWIS yn adnodd hollbwysig i bawb. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol, yn y sector iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu a gwella mwy ar yr adnodd hwn fel rhan o gyfeiriadur gwasanaethau cenedlaethol.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 23** Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan staff sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, fel rhan o bwynt cyngor a gwybodaeth canolog pob awdurdod lleol, wybodaeth gyfoes am hawliau a gwasanaethau i ofalwyr o dan y Ddeddf, ac y darperir hyfforddiant gloywi lle bo angen. Nodwn y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith cymhwysedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithwyr gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ein diweddaru ar y cynnydd gyda'r prosiect hwn.

**Ymateb – Derbyn**

Gwyddom nad yw pob awdurdod lleol yn gwneud defnydd o fodel un pwynt mynediad y gall pobl ei ddefnyddio i gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chynhorthwy, fel y dangosir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, "Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion". Fodd bynnag, disgwyliwn i bob awdurdod lleol fod wedi sefydlu ac ariannu hyfforddiant a strategaeth gyfredol a phriodol ar gyfer eu gweithwyr, pa le bynnag y bônt yn gweithio.

Yn 2019 aethom ati i gomisiynu Gofal Cymdeithasol Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith cymwyseddau newydd, i ategu'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau y mae awdurdodau lleol yn mynnu y dylai eu gweithwyr gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy feddu arnynt. Maent yn disgwyl cwblhau a lansio'r fframwaith cymwyseddau newydd yn gynnar yn 2020.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 24** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwerthusiad annibynnol y Ddeddf yn ystyried a yw'r cyllid ar gyfer gwasanaethau gofalwyr wedi bod yn ddigonol i gyflawni bwriadau polisi'r Ddeddf. Rhaid iddi hefyd ystyried y cyllid a fydd yn angenrheidiol yn y tymor hwy i ddarparu'r hawliau a'r gwasanaethau a addawyd gan y Ddeddf.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Mae gwerthusiad ffurfiol Deddf 2014 yn ystyried dau brif faes – gweithredu'r Ddeddf ac effaith y Ddeddf. Mae prif ffocws y gwerthusiad ar y gwahaniaeth y mae Deddf 2014 wedi'i wneud i bobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen

cymorth, felly bydd y rhan fwyaf o'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar y meysydd hyn. Ni fyddwn yn rhoi sylw penodol i ariannu gwasanaethau fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiol a roddwyd ar waith ym mis Tachwedd 2018 ac a gynhelir am dair blynedd.

Y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr yw'r fforwm allweddol lle gellir trafod yn fanylach faterion yn ymwneud ag ariannu, ac fel rhan o'n hystyriaethau wrth inni ddatblygu'r cynllun cenedlaethol newydd. Efallai y bydd yn cynghori newid gwerthusiad presennol y Ddeddf, ond efallai y bydd opsiynau eraill i'w cael, fel comisiynu gwaith ymchwil mwy pwrpasol.

Trwy gyfrwng ein strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu modelau ariannu i sicrhau y bydd arian ychwanegol ar gael i ofal cymdeithasol yn y tymor hwy, er mwyn helpu i gwrdd â'r galw. Mae hyn yn rhan o'n hystyriaeth ehangach mewn perthynas â ffyrdd amgen o ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Er mwyn bwrw ymlaen â hyn mae Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol wedi'i ffurfio. Ei bwrpas yw cynnig cyfraniad polisi i'r broses o ystyried sut y gellir codi a dosbarthu arian ychwanegol posib o'r fath, ac ystyried y meysydd â blaenoriaeth oddi mewn i ofal cymdeithasol y gellid buddsoddi ynddynt yn fwyaf effeithiol unrhyw arian a godir trwy'r dull hwn. Bydd gwaith y grŵp yn cael ei lywio gan ganfyddiadau gwaith ymchwil yr ydym wedi'i gomisiynu'n ddiweddar i ddadansoddi'r opsiynau posibl ar gyfer defnyddio unrhyw arian ychwanegol y gellir ei godi.

Goblygiadau ariannu – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol. Bydd asesiadau o oblygiadau ariannu posibl yn y dyfodol yn ymwneud â newidiadau ym mholisi'r llywodraeth, a allai effeithio ar gyllidebau'r llywodraeth ac ar gyrff statudol neu sefydliadau eraill, yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygiad parhaus y polisi gofalwyr yr ydym yn bwrw ymlaen ag ef ar y cyd â rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 25** Mae'r sector statudol yn ddibynnol iawn ar y trydydd sector ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr. Mae angen adlewyrchu'r ddibyniaeth honno wrth ddarparu cyllid digonol ar gyfer y trydydd sector, a chynnwys y sector mewn modd ystyrlon wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau ynghylch y cyllid hwnnw. Credwn y dylai'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ystyried y mater hwn. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith hwn o fewn chwe mis.

**Ymateb – Derbyn**

Un elfen a oedd yn perthyn i'r cylch gorchwyl wrth sefydlu'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr a'r broses ar gyfer pennu aelodau oedd ystyried ffrydiau ariannu'r presennol a'r dyfodol ar draws yr holl sectorau. Mae gan y trydydd sector ran hollbwysig wrth gyflawni darpariaeth, ac mae'n hynod bwysig inni ystyried sut y mae modd i lefelau ariannu, penderfyniadau a wnawn ynghylch polisïau, a phenderfyniadau gweithredol, effeithio ar y darlun ehangach hwnnw. Byddwn yn cynnwys trafodaeth o'r argymhelliad hwn ar agenda un o gyfarfodydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr yn ystod 2020.

Mae cyd-gynhyrchu yn llinell aur sy'n rhedeg trwy Ddeddf 2014. Disgwylir i'r holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni gwasanaethau gofal cymdeithasol gyd-gynhyrchu gwasanaethau er mwyn esgor ar y newidiadau a ragwelir yn Neddf 2014.

Ar lefel sefydliadol, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweld enghreifftiau da o gyd-gynhyrchu ymhlith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth iddynt gyflawni'r Gronfa Gofal Integredig. Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn bartneriaid allweddol yng ngwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a disgwyliwn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymgysylltu'n rhagweithiol â phobl a'u cynorthwyo i lywio ffurf y gwasanaethau yn y rhanbarth. Mae'n bwysig sicrhau yr ymgysylltir â dinasyddion ar ystod o lefelau gwahanol, ac nid o amgylch bwrdd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn unig lle ceir ambell 'ddinesydd arbenigol'.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 26** Mae angen trefniant cyllido hirdymor, cynaliadwy a symlach ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr o dan y Ddeddf. Credwn y dylid darparu cyllid bob tair blynedd o leiaf. Rhaid i Lywodraeth Cymru symud tuag at hyn fel mater o flaenoriaeth.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Mae ein cynllun grant presennol, sef Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, wedi bod yn gweithredu'n hynod lwyddiannus ers 2016 ar gylch tair blynedd. Cafodd y cynllun estyniad o flwyddyn, felly yn awr daw i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae wedi darparu cyllid i amrywiaeth o sefydliadau, yn cynnwys sefydliadau gofalwyr, ar gyfer cyflawni gweithgareddau sy'n cynorthwyo i weithredu ac ymwreiddio egwyddorion allweddol Deddf 2014. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ynghylch hawliau gofalwyr o dan Ddeddf 2014.

Yn dilyn ein cynllun llwyddiannus cyfredol fe wnaethom lunio cynllun Grant newydd i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, gan dderbyn ceisiadau yn ystod haf 2019. Cafodd y sefydliadau a ymgeisiodd wybod y canlyniadau cyn diwedd 2019. Bydd y cynllun tair blynedd nesaf, a fydd yn cynnwys tri phrosiect yn ymwneud yn benodol â gofalwyr, yn cael ei roi ar waith ar 01 Ebrill 2020.

Mae cyni yn ystod y deg mlynedd diwethaf wedi cael effaith hirdymor negyddol fawr ar ein gallu i gynllunio ac ariannu grantiau neu raglenni aml-flwyddyn. Fodd bynnag, rydym wastad wedi mynd ati i ddiogelu gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Gan edrych tua'r dyfodol ar ein gallu i gynllunio ar gyfer y tymor hwy, cyhoeddwyd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Drysorlys Ei Mawrhydi ddiwedd mis Awst 2019. Ar adeg ysgrifennu'r ymateb hwn, disgwylir i'r Adolygiad o Wariant aml-flwyddyn llawn gael ei gynnal yn ddiweddarach eleni.

Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer y flwyddyn gyntaf y mae Llywodraeth y DU wedi cynnal Rownd Gwariant. Rydym yn cydnabod ac felly'n sympathetig i alwadau gan ein partneriaid yn y sector cyhoeddus am gael cyllidebu dros gyfnod hwy, er mwyn ategu rhag-gynllunio ariannol. Ein huchelgais bob amser yw cynnig eglurder

hirdymor ynghylch cyllidebau, pa bryd bynnag y bo modd. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn â rhagdybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Mae agenda cyni Llywodraeth y DU, ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch Brexit, yn cyfyngu ar ein gallu i wneud hyn.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 27** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr gynhwysfawr a hygyrch o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael i ddarparu cymorth i ofalwyr gan y trydydd sector. Dylid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol.

**Ymateb – Derbyn**

Yn 2018 cynhaliwyd ymarfer mapio gan swyddogion, a chafodd manylion y ffynonellau cyllid sydd ar gael o dan ôl troed pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a ble y daethant yn rhan o'r system, eu cyhoeddi ym mis Medi 2018. Nid chynhwysodd yr ymarfer hwn yr holl gyllid ar gyfer cyrff y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau'n ymwneud â gofalwyr, naill ai'n genedlaethol neu'n lleol. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried ymestyn yr ymarfer hwn er mwyn cael darlun llawnach o ffrydiau ariannu, ac rydym yn ymchwilio i sut y gallwn wella hygyrchedd grantiau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, yn enwedig ymhlith y trydydd sector.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 28** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sicrhau bod un llif cyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau gofalwyr. Dylai hyn ddisodli'r system gyfredol o grantiau unigol. Dylai fod mecanwaith monitro ac adrodd ochr yn ochr ag ef i sicrhau ei fod yn sicrhau gwerth am arian.

**Ymateb – Gwrthod**

Caiff mwyafrif llethol y cyllid a roddwn i lywodraeth leol ar gyfer gofal cymdeithasol, yn cynnwys gofalwyr, ei gyflwyno trwy'r setliad heb ei neilltuo ar gyfer llywodraeth leol.

Caiff y setliad £4.5 biliwn ei ystyried gan awdurdodau lleol ochr yn ochr â ffynonellau incwm eraill, fel grantiau penodol ac incwm a godir yn lleol trwy'r dreth gyngor, ffioedd, gwerthiannau a thaliadau, a chaiff ei wario'n unol ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

Defnyddir Asesiadau o Wariant Safonol i ddosbarthu arian y setliad i awdurdodau lleol, gyda bron i 30% o gyfanswm yr Asesiadau o Wariant Safonol yn cael ei ddosbarthu'n ôl elfen gofal cymdeithasol y fformiwla.

Fel cyrff ymreolaethol ag atebolrwydd democrataidd, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol dros reoli'u materion ariannol.

Credwn mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i farnu ynghylch anghenion lleol eu cymunedau ac ariannu'r gwasanaethau'n unol â hynny. Mae'r system ariannu sydd gennym ar waith yn rhoi hyblygrwydd iddynt wneud y penderfyniadau

hynny. Rydym yn cynnig cryn hyblygrwydd i awdurdodau arfer ymreolaeth a chyfrifoldeb wrth reoli eu cyllid.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 29** Rhaid i Lywodraeth Cymru arwain yn gryfach ar ddull cenedlaethol o gasglu data ar ofalwyr, er mwyn sicrhau bod data priodol ac ystyrlon yn cael eu casglu ar draws pob sector mewn ffordd gydgysylltiedig a chyson. Credwn y dylai hyn fod yn swyddogaeth y Grŵp Cynghori Gweinidogol, a ddylai ddatblygu canllawiau cenedlaethol i bennu pa ddata y mae angen eu casglu, sut y dylid eu casglu a sut y byddant yn cael eu defnyddio ar ôl eu casglu. Dylai'r data gael eu cyhoeddi, a dylid eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio gwasanaeth a chyllid yn y dyfodol. Credwn fod y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn rhan bwysig o'r gwaith hwn, a gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd.

**Ymateb – Derbyn**

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cael gwybodaeth ac ystadegau effeithiol ac ystyrlon, ac o'r herwydd rydym wedi treulio cryn amser yn datblygu Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd a fydd yn gwella'r ffordd y cesglir data mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a thrwy hynny wella ein dealltwriaeth o effaith y Ddeddf, yn cynnwys ei heffaith ar ofalwyr.

Bydd datblygiad y cynllun gweithredu cenedlaethol newydd, a gaiff ei arwain gan y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr, yn ystyried amrywiaeth eang o elfennau a all lywio cynnwys y cynllun yn y dyfodol, yn cynnwys data presennol, pa ddata a gesglir yn y dyfodol, a thystiolaeth gwaith ymchwil fel prosiect 'Mesur y Mynydd' a gyhoeddodd ei Adroddiad Cam 1 yn ystod haf 2019. Bydd hyn oll yn arwain at drosolwg o'r data a'r deunyddiau a all lywio sut y gweithiwn ar draws sectorau i wella'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth ar gyfer gofalwyr unigol.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 30** Rydym yn cefnogi argymhelliad Estyn yn ei adroddiad ym mis Mai 2019 y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu data dibynadwy, a gesglir yn genedlaethol er mwyn helpu i nodi gofalwyr ifanc.

**Ymateb – Derbyn**

Croesawn adroddiad adolygiad thematig Estyn, "Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru". Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gasglu data a fydd, maes o law, yn esgor ar wybodaeth werthfawr er mwyn ein galluogi i ymdrin yn well ag anghenion addysgol ac anghenion cymorth gofalwyr ifanc.

Ar hyn o bryd cesglir rhywfaint o ddata'n ymwneud ag asesiadau gofalwyr ifanc, a'u cyhoeddi'n flynyddol. O fis Ebrill 2020 ymlaen, bydd gan elfen 'data meintiol' y Fframwaith Perfformiad a Gwella adran yn ymwneud â gofalwyr ifanc, a fydd yn

cynnwys gwybodaeth am asesiadau a darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 31** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru o fewn chwe mis.

**Ymateb – Derbyn**

Ar hyn o bryd mae pedwar ar ddeg o sefydliadau wedi 'mynd yn fyw' ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, gyda deunaw o gontractau llofnodedig ar waith. Mae oddeutu 11,500 o ddefnyddwyr yn defnyddio System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar draws Cymru. Aeth Wrecsam yn fyw ym mis Tachwedd 2019. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ymrwymo i lansiad ar gyfer Nyrsio Cymunedol ac ar gyfer timau Gofal Cymdeithasol integredig yn ardal Awdurdod Ceredigion ym mis Rhagfyr. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cwblhau Achos Busnes Llawn ar gyfer rhoi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar waith.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid ychwanegol ar gyfer cefnogi'r rhaglen genedlaethol, cynorthwyo Llywodraeth Leol i'w rhoi mewn grym yn rhanbarthol, a hwyluso'r GIG i weithredu nodweddion System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Daw'r cyllid hwn o'r Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol a'r Gronfa Gofal Integredig, fel rhan o gyllid Cymru Iachach.

Ar hyn o bryd mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a disgwylir cael adroddiad ganddynt yng nghanol 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adolygiad, ac mae'n gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i bennu meysydd o fewn rhaglen System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru y gellir eu cefnogi er mwyn cyflymu a sicrhau'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen.

Goblygiadau ariannol – dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.